UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Tŷ Ystumllwynarth
Llys Siarter
Phoenix Way
Abertawe SA7 9FS

8 Gorffennaf 2020

Annwyl Gomisiynydd Plant Cymru,

Diolch i chi am eich llythyr, dyddiedig Gorffennaf 6ed, a dderbyniwyd gennyf trwy neges e-bost.

Rydym yn croesawu'r newyddion eich bod wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru am yr '*ansicrwydd parhaus ynghylch gweithrediadau ysgolion, colegau a lleoliadau addysg eraill yn nhymor yr hydref*' ac yn nodi eich sylw bod '*gan undebau athrawon hefyd rôl bwysig i'w chwarae*'. Rydym yn rhannu'ch pryder ynghylch yr ansicrwydd parhaus ac yn cytuno bod gan undebau'r athrawon (ac undebau eraill sy'n cynrychioli staff ysgolion) rôl bwysig i'w chwarae.

Hyderaf, yn hynny o beth, eich bod yn gwbl ymwybodol o'r rhyngweithio dwys a chyson sydd wedi digwydd rhwng yr undebau llafur â llywodraeth ar lefel cenedlaethol a lleol, yn ogystal â gyda'r consortia rhanbarthol, dros y misoedd diwethaf. Yn ystod y trafodaethau hynny rydym wedi rhoi lles ein haelodau a lles disgyblion a myfyrwyr ar flaen ein blaenoriaethau. Wrth ystyried yr heriau rydym wedi mynnu bod ystyriaeth ofalus i faterion hylendid, iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau bod staff a disgyblion ysgol yn gallu dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel.

Fodd bynnag, byddai'n anghywir cymryd yn ganiataol bod yr ystyriaethau wedi bod ym maes iechyd a diogelwch yn unig. Rydym yn croesawu eich cymeradwyo cyhoeddus o '*ymateb y proffesiwn addysg i effaith gychwynnol y pandemig*'. Y gwir amdani yw bod arweinwyr, athrawon a darlithwyr wedi gweithio'n arwrol i sicrhau nid yn unig gofal ond addysg hefyd i ddisgyblion gan roi llwyr ystyriaeth i faterion lles ac amddiffyn plant.

Wrth baratoi ar gyfer hynny roedd gan yr undebau rôl allweddol wrth ystyried yr hyn sy'n bosib i'w gyflawni dan yr amgylchiadau heriol sydd ohoni ac mae'r rôl honno'n parhau. Rydym yn cyd-drafod gyda Llywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol a llywodraeth leol am y modd y gellir sicrhau'r addysg orau i ddisgyblion. Mae'r trafodaethau hynny yn cynnwys strategaethau dal i fyny, addysgu o bell ac hefyd ystyriaeth ofalus o argaeledd technoleg boed yn galedwedd neu gyswllt band llydan gyda goblygiadau hynny o safbwynt cydraddoldeb i bob disgybl.

Hoffwn bwysleisio bod '*sicrhau ...bod [ein] haelodau'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u galluogi i gyflawni eu rôl broffesiynol hyd eithaf eu gallu'* wedi bod yn brif nod a bwriad gennym ers cychwyn y cyfnod hwn – ac yn wir, dyna un o'n prif amcanion yn gyffredinol.

I ymateb yn benodol i'ch galwadau arnom ni ac ar undebau eraill:

- gallaf eich sicrhau y byddwn fel Undeb yn parhau i weithio'n agos, dwys a chyson ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol dros gyfnod yr haf er mwyn sicrhau'r gorau i'n haelodau a'n disgyblion

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU | 01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

- ni ellir anwybyddu nac esgeuluso materion gweithrediadol; mae'n gwbl hanfodol mynd i'r afael â'r rhain, a datrys unrhyw broblemau, er mwyn sicrhau amodau ac amgylchedd priodol a diogel ar gyfer addysg; mae'n glir iawn i ni nad oes modd gwahanu '*rôl broffesiynol...wrth addysgu plant*' oddi wrth faterion gweithrediadol; mae'r ddau yn gyfan gwbl annatod
- rydym wedi bod mewn trafodaethau ynghylch ymgysylltu â dysgwyr gartref, yn ei amrywiol ffurfiau (darparu gwaith a thasgau, ffrydio byw, galwadau ffôn, cefnogaeth fugeiliol ac ati); rydym am sicrhau bod hynny'n cael ei wneud mewn modd sy'n gefnogol *ac yn ddiogel* i athrawon, dysgwyr a rhieni, ac sy'n cymryd i ystyriaeth materion diogelu plant; mae hynny'n ddibynnol ar ganllawiau a hyfforddiant manwl a chyson i'r gweithlu cyfan; rhaid cydnabod bod y rhain yn ddulliau o weithio hollol newydd i fyd addysg Cymru, a bod angen camu'n fwriadus ac â gofal gan fod y patrwm hwn yn debygol o fod yn rhan o'r ddarpariaeth am gyfnod i ddod

Rwy'n nodi bod eich llythyr yn cyfeirio at yr heriau arweiniodd at eich datganiad cyhoeddus '*bod anghydfod ynghylch trefniadau contractiol wedi rhwystro'r cyfnod o bedair wythnos yn ôl y soniwyd amdano wrth deuluoedd a phlant yn wreiddiol*'. Ymhlyg â'r sylw hwn mae awgrym bod methiannau wedi bod o ran yr Undebau Llafur. Ond mae'n bwysig pwysleisio bod yr Undebau Llafur wedi dwyn sylw dro ar ôl tro dros gyfnod estynedig at yr heriau hynny a bod y cyfrifoldeb a'r atebolrwydd terfynol ar Lywodraeth Cymru ac, wrth reswm, y cyflogwr i fynd i'r afael, a datrys, yr heriau hynny. Yn ddelfrydol, mi fyddai hynny wedi digwydd *cyn* unrhyw gyhoeddiad.

Mae wedi bod yn her ychwanegol bod canllawiau gan Lywodraeth Cymru wedi ein cyrraedd mor hwyr yn y dydd a ninnau'n parhau i aros am arweiniad ar 'addysgu cyfunol' ym mis Medi a gofal i blant bregus dros yr haf gydag ychydig dros wythnos i fynd cyn i'r mwyafrif o ysgolion Cymru gau. Er y byddwn ni fel Undeb yn gweithio'n ddiflino dros yr haf, nid ydym yn derbyn bod rhaid i staff ysgol wneud hynny. Mae staff ysgol wedi gweithio'n ddi-stop dros y cyfnod hwn, gan weithio o bell ac mewn hybiau, yn aml yn ystod eu gwyliau, ac afraid dweud bod y proffesiwn ar ei liniau gydag angen am egwyl cyn wynebu'r flwyddyn ysgol heriol sydd i ddod.

Rwy'n cytuno gyda chi bod Cymru '*yn llawn gweithwyr proffesiynol ymroddedig ac arloesol sy'n chwarae rôl hanfodol bwysig ym mywydau plant*'. Dyma weithlu fydd yn parhau i dderbyn cefnogaeth lawn eu hundebau yn sgil yr heriau a hynny er mwyn sicrhau lles, iechyd ac addysg o'r radd flaenaf, mwyaf gofalgar, cefnogol a diogel, i ddisgyblion a myfyrwyr.

Mae croeso cynnes i chwi gysylltu i drafod ymhellach.

Yn ddiffuant,

D E Roberts-Young

Dilwyn Roberts-Young
Ysgrifennydd Cyffredinol